YSGOL GYFUN GWYR

# CYNLLUN A PHOLISI CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2024 – 2028

**Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu:** Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

**Dyddiad yr adolygiad blynyddol:** Gorffennaf 2025

**Dyddiad yr adolygiad llawn:** Gorffennaf 2028

CYNNWYS


| Is-adran | Cynnwys | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Cyd-destun ein Hysgol | 5 |
| 3 | Integreiddio Cydraddoldeb mewn Polisïau Statudol ac Anstatudol eraill | 5 |
| 4 | Hawliau plant | 6 |
| 5 | Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru | 7 |
| 6 | Diben y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 8 |
| 7 | Rolau a Chyfrifoldebau | 8 |
| 8 | Dadansoddi a Gwerthuso Data | 10 |
| 9 | Ymgysylltu | 11 |
| 10 | Asesiadau Effaith Cydraddoldeb | 11 |
| 11 | Dysgu Proffesiynol Staff | 12 |
| 12 | Amcanion Cydraddoldeb | 12 |
| 14 | Amcan Cyflog rhwng y Rhywiau | 12 |
| 15 | Cyhoeddi a monitro canlyniadau | 12 |
| 16 | Arweinyddiaeth Strategol | 12 |
| Atodiad 1 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 14 |

## RHAGAIR

Yn Ysgol Gyfun Gŵyr rydym yn cydnabod ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau yn llawn i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo tegwch i bob dysgwr, gweithiwr, aelod o gymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig.

Rydym yn llwyr gefnogi gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r angen am amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i lywio gan farn ein dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach fel ein bod yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn gadarn â blaenoriaethau ar gyfer gwella a bod tegwch a chydraddoldeb yn sail i bopeth a wnawn fel darparwr addysg a chyflogwr. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb am gyfnod o bedair blynedd a'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i leihau anghydraddoldebau a nodwyd, gwella canlyniadau a meithrin perthnasoedd da yn yr ysgol a thu hwnt iddi. Mae sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael eu trin â gofal, parch ac urddas wrth wraidd popeth a wnawn.

Bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb fel yr amlinellir yn ein Cynllun, ac yn erbyn tri nod dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y rhain yn cael eu rhannu a'u cyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Byddwn yn ymgysylltu â chymuned ein hysgolion a phartneriaid ehangach i sicrhau bod ein cynllun a'r camau gweithredu a gymerwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion yn ein hysgol ac i aelodau o gymuned ein hysgolion sy'n profi'r anfantais, gwahaniaethu ac anghydraddoldebau mwyaf.

| ENW: Mr Jeffrey Connick | ENW:Miss Aldyth Williams |
|---|---|
| PENNAETH | CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR |

## 1. CYFLWYNIAD

Yn Ysgol Gyfun Gŵyr, rydym yn cydnabod gwerth amrywiaeth ac rydym yn ymroddedig i feithrin ymdeimlad o berthyn a derbyniad, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol ein dysgwyr. Rydym yn cydnabod, pan fydd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu, meithrin perthnasoedd cadarnhaol, a datblygu ymdeimlad cryf o hunan-werth a hunaniaeth. Sicrhawn fod pob dysgwr, rhiant/gofalwr, staff ac aelod o'r ysgol a'r gymuned ehangach yn cael eu trin fel unigolyn, gyda thegwch, parch, ac urddas beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion gwarchodedig.

Cenhadaeth ein hysgol: Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn cydnabod bod cymdeithas yn amrywiol, ac rydym yn llwyr ymrwymedig i baratoi ein dysgwyr i ffynnu mewn cymdeithas o'r fath. Nid ydym yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Rydym yn ymdrechu i feithrin cysylltiadau da ac rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

Rydym yn gwerthfawrogi egwyddorion cydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod anghydraddoldebau systemig yn bodoli yn ein cymdeithas ac yn ein sefydliadau, ein strwythurau a'n prosesau. Mae rhai unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu mwy o anfanteision, ymyleiddio a gwahaniaethu, sy'n aml yn cael eu gwaethygu gan groestoriadedd — natur rhyng-gysylltiedig categoreiddio cymdeithasol, er enghraifft hil, dosbarth a rhywedd sy'n creu systemau rhyngddibynnol o wahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Rydym yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau bywyd wrth lunio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Rydym yn sicrhau bod gwahaniaethau'n cael eu hystyried fel y peth arferol a bod amrywiaeth yn cyfoethogi ein bywydau a'n profiadau i gyd. Mae hyn yn treiddio drwy ein polisïau, ein gweithredoedd a'n hymddygiad. Fel cymuned ysgol rydym yn ymroddedig i nodi a goresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu ac ymgysylltu, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud cynnydd a chyflawni ei botensial.

Rydym yn ymrwymedig i wneud addasiadau angenrheidiol i sicrhau cyfranogiad gweithredol pob dysgwr a'i deulu ym mywyd ein hysgol.

## 2. CYD-DESTUN EIN HYSGOL

Mae ein hysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Abertawe. Mae 1,165 o ddysgwyr ar y gofrestr, gan gynnwys 165 yn y Chweched Dosbarth.

Ceir 64 o staff addysgu gyfwerth amser llawn a thros 50 o staff cynnal, yn cynnwys staff cegin a glanhau, ac mae mwyafrif benywaidd ym mhob grŵp. Ar gyfartaledd tair mlynedd, mae gan 7.5 % o'r disgyblion yr hawl i brydiau ysgol am ddim. Mae canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 9.38%. Mae'r holl ddisgyblion yn ddwyieithog, gyda thua 27.5% ohonynt yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith. Nid oes cymysgedd ethnig arwyddocaol ym mhoblogaeth yr ysgol, ac y byddai'r mwyafrif llethol yn ystyried eu hunain fel Gwynion, Cymreig/Prydeinig.

## 3. INTEGREIDDIO CYDRADDOLDEB MEWN POLISÏAU STATUDOL AC ANSTATUDOL

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn sail i holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau ein hysgolion. Mae nifer o bolisïau statudol ac anstatudol allweddol sy'n adlewyrchu gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a lle ceir aliniad â'r Polisi hwn a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Derbyniadau
- ADY
- Cwynion
- Cwricwlwm
- Cyfle Cyfartal e.e. Cydraddoldeb hiliol/gwrth-hiliaeth
- Ymddygiad a Disgyblaeth Disgyblion
- Diogelu

Click or tap here to enter text.

Yn ogystal, rydym yn rhoi sylw dyledus i Ganllawiau Hawliau, Parchu Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

**4. HAWLIAU PLANT**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi'r hawliau sydd gan bob plentyn i sicrhau eu bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Rydyn ni'n rhoi hawliau plant wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud fel ysgol. Mae nifer o hawliau plant yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb (2010), sef:

- **Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu):** Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag fo'i gefndir teuluol.

- **Erthygl 3 (lles y plentyn):** Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.

- **Erthygl 12 (parchu barn y plentyn):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif.

- **Erthygl 13 (rhyddid mynegiant):** Rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei feddyliau a'i farn ac i gael mynediad at bob math o wybodaeth, cyn belled â'i fod o fewn y gyfraith.

- **Erthygl 14 (rhyddid meddwl, cred a chrefydd):** Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu beth mae'n ei ddewis a hefyd i ymarfer ei grefydd, cyn belled nad yw'n atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- **Erthygl 23 (plant ag anabledd):** Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned.

- **Erthygl 29 (nodau addysg):** Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliannau ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.

- **Erthygl 30 (plant o grwpiau lleiafrifol neu gynhenid):** Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad lle maent yn byw ai peidio.

## 5. DEDDF CYDRADDOLDEB (2010) A DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

Mae'n ofynnol i bob ysgol gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol manwl (SEP) fel rhan o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yng Nghymru.

Mae dyletswydd gyffredinol y PSED yn nodi'r hyn y mae angen i ysgolion ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a datblygu polisïau a all effeithio ar ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Y nodweddion gwarchodedig sy'n berthnasol i ddysgwyr yw:

- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw, a
- chyfeiriadedd rhywiol

O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n ofynnol i ysgolion (a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru) roi sylw dyladwy i:

- ddileu unrhyw achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Mae rhoi sylw dyladwy yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried yn ymwybodol dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb a restrir uchod. Mae gosod Cynllun/Polisi yn ofyniad statudol i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf, bydd ein hysgol yn:

- casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi gwybodaeth am y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni tri nod Deddf Cydraddoldeb 2010;

- hunanwerthuso'n effeithiol a phenderfynu ar Amcanion Cydraddoldeb penodol a mesuradwy yr ydym yn eu cyhoeddi a'u dilyn yn weithredol dros gyfnod o bedair blynedd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol; ac
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff a'r gymuned ehangach i lunio, llywio a gwerthuso effeithiolrwydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## 6. DIBEN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Bydd cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn effeithiol ac yn gyson yn galluogi ein hysgol i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng holl aelodau'r gymuned ysgol, waeth beth fo'u nodweddion unigol. Yn ogystal â hynny, byddwn yn dileu neu'n lleihau unrhyw anfantais a brofir gan unigolion oherwydd eu nodweddion gwarchodedig ac yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau, yn enwedig os yw cyfranogiad mewn agweddau ar fywyd ysgol yn anghymesur o isel. Byddwn yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol drwy fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu, a thrwy hyrwyddo dealltwriaeth rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a'r rhai nad ydynt.

## 7. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd yr aelodau canlynol o gymuned yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei weithredu'n effeithiol.

### Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i gydraddoldeb a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol cynnwys pob dysgwr yn llawn, ac yn ymateb i'w anghenion unigol yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig amrywiol.

Mae'r corff llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl pan fyddant yn gwneud cais am swyddi yn ein hysgol;
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl anabl, ac yn ymdrechu i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn modd cynhwysol; a

- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw ddisgybl pan fydd yn ein hysgol.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd am gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni/ofalwyr.

**Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

Mae Uwch-arweinwyr yn ein hysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn berthnasol i bawb.
- rhoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth gan y corff llywodraethu.
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am gynllun ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol.
- sicrhau bod pob panel penodi'n rhoi ystyriaeth briodol i'r cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn neb o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.
- dylunio cwricwlwm sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddathlu cefndiroedd, gwerthoedd a nodweddion amrywiol yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o bobl â gwahanol gredoau a safbwyntiau a herio ystrydebau.
- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd ysgol.
- ymdrin ag unrhyw achos o driniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn unol â'r polisïau perthnasol.

**Staff Addysgu**

Mae pob athro yn cyfrannu at sicrhau bod ei ysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a chynnal ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol.
- darparu deunyddiau ac adnoddau sy'n darlunio delweddau cadarnhaol, nad ydynt yn ystrydebol o wahanol nodweddion gwarchodedig.
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, ac adrodd a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau fel a bennir mewn polisïau perthnasol.
- cefnogi gwaith cynorthwywyr addysgu a'u hannog i adnabod ymddygiadau gwahaniaethol ac i ddilyn prosesau perthnasol.

**Staff nad ydynt yn addysgu**

Mae pob aelod o staff nad yw'n addysgu yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a chynnal ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol;
- Cydnabod ymddygiad gwahaniaethol a dilyn prosesau perthnasol.

## 8. DADANSODDI A GWERTHUSO DATA

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau ysgolion yr ysgol wedi hysbysu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Hunanwerthusiad 2024-25**

*Targed 2*

- Targedu problemau **cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol** ein hychydig ddysgwyr. Bydd yn cynnwys materion fel Presenoldeb, Trawma, EBSA (Emotional Based School Avoidance), Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb (RSE)
  LLES, GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

*Targed 5*

- Targed Sicrhau bod gan **arweinwyr ar bob lefel gyfrifoldebau clir a strategol** i yrru gwelliannau ar draws yr ysgol.
  ARWEINYDDIAETH A GWELLA (Estyn)

Mae'r holl ddata a gasglwyd wedi'i ddefnyddio at ddiben dadansoddi tueddiadau yn ôl nodwedd warchodedig, gan hefyd ystyried gofynion diogelu data a deddfwriaeth.

## 9. YMGYSYLLTU

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod gennym farn glir o ran pa gamau sy'n cael eu hystyried yn bwysig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn ein hysgol.

Mae sicrhau lleisiau dysgwyr a'u teuluoedd a'u gofalwyr drwy fodd ystyrlon yn hanfodol er mwyn deall anghenion ein dysgwyr a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymyleiddio a'r rhai mwyaf agored i niwed.

Ymgymerwyd ag ystod o weithgareddau gwahanol i lywio ein cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Holiadur blynyddol Llais y Dysgwr
- Arolwg blynyddol Barn y Staff
- Holiaduron rhieni o Nosweithiau Rhieni (blynyddol)
- Adborth Estyn (Arolwg Hydref 2023)
- Gohebiaeth / Cyfarfodydd gan rieni
- Grwpiau ffocws o ddysgwyr

## 10. ASESIADAU EFFAITH CYDRADDOLDEB

Mae gan yr ysgol brosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar waith.

Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn sicrhau nad oes unrhyw berson dan anfantais neu'n cael ei wahaniaethu yn ei erbyn gan weithgareddau, cynlluniau a pholisïau ein hysgol. Cynhelir Asesiadau Effaith Cydraddoldeb i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau allweddol yr ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gynyddol gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfiaeth yr ysgol â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yr holl bolisïau newydd a chynlluniau a phenderfyniadau strategol allweddol, cyn iddynt gael eu gweithredu.

## 11. DYSGU PROFFESIYNOL STAFF

Mae'n ofyniad statudol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswydd gyffredinol y PSED ymhlith staff a nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn y maes hwn drwy ein prosesau rheoli perfformiad. Fel y cyfryw, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau hyfforddi.

## 11. AMCANION CYDRADDOLDEB

Gweler Atodiad 1 am fanylion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028 ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol yn unol â'n gweithgareddau ymgysylltu, hunanwerthuso a blaenoriaethau lleol/cenedlaethol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â'n Cynllun Datblygu Ysgol ac mae'r ddau gynllun wedi'u croesgyfeirio fel eu bod wedi'u cysylltu'n annatod.

## 12. AMCAN CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddadansoddiad data cyflogaeth gan fenywod a dynion yn flynyddol a bod amcan cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei ddatblygu lle nodir gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.

Yn ein hysgol, nid ydym wedi gallu nodi gwahaniaeth o ran cyflog gan fod y grŵp staff yn rhy fach i wneud dadansoddiad ystadegol yn briodol.

## 13. CYHOEDDI A MONITRO CANLYNIADAU

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro gan y corff llywodraethu a bydd yr holl gynlluniau newydd yn cael eu rhoi ar y wefan a'u rhannu ar gais â'r Ymgynghorydd Gwella Ysgolion.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiad blynyddol yn manylu ar werthusiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r corff llywodraethu. Yna manylir ar wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni/Ofalwyr.

## 14. ARWEINYDDIAETH STRATEGOL

Yr arweinwyr ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn Ysgol Gyfun Gwyr yw Mr Jeffrey Connick (Pennaeth) a Mr Rhodri Evans (Pennaeth Cynorthwyol).

**Atodiad 1:**

YSGOL GYFUN GWYR

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2028

**AMCAN CYDRADDOLDEB:** Hyfforddi, a chynyddu ymwybyddiaeth disgyblion, staff a Llywodraethwyr am hiliaeth a'n llwybr i fod yn wrth-hiliol.

**Nodwedd warchodedig:** Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☒ Crefydd neu gred ☒ Rhyw ☒ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☒

**RHESYMEG:**
*(Pam mae hyn yn rhan o'r cynllun? Beth ddywedodd yr wybodaeth/data/ymgysylltu wrthych?)*

Dengys ein arolygon barn (Llais y Disgybl 2023-24) fod y rhan fwyaf o ddysgwyr sef 93% yn teimlo fod staff yr ysgol yn annog disgyblion i barchu pawb, waeth beth fo'u hil. Mae ychydig bach iawn (1%) o ddysgwyr yn nodi eu bod yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu cefndir ethnig neu grefydd. Fodd bynnag, mae ambell achos o ddefnydd o iaith hiliol yn codi yn achlysurol ac felly teimlwn fod dal gennym waith i wneud yn y maes hwn. Mae cynnwys nod o fod yn wrth-hiliol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn sicrhau ein bod yn meithrin amgylchedd teg, cynhwysol a pharchus i bawb yn ein hysgol.

| Effaith a fwriedir/<br>Meini prawf llwyddiant | Camau Gweithredu Allweddol | Person Arweiniol | Llinell amser | Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/lwyddiant i chi |
|---|---|---|---|---|
| a) I hyrwyddo agwedd wrth-hiliol, gan ymbweru dysgwyr i herio agweddau a sylwadau hiliol. Yn ei dro, gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at lai o achosion o hiliaeth yn yr ysgol. | - Cynnal sesiynau hyfforddiant gwrth-hiliol i staff, disgyblion a rhieni i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a'i effaith.<br>- Sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu diwylliannau a hanesion amrywiol, gan gynnwys cyfraniadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.<br>- Mabwysiadu a gweithredu polisïau gwrth-hiliaeth cadarn, gan gynnwys dulliau adrodd a rheoli digwyddiadau hiliol.<br>- Gwahodd siaradwyr ysbrydoledig o gefndiroedd ethnig amrywiol a chynnal | Rhodri Evans | Parhaus | Cynnal Gwobr Ysgol Noddfa yn 2027<br>• Lleihad yn y nifer o achosion o fwlio hiliol a gofnodir ar ClassCharts / My Concern<br>• Adborth gan grwpiau ffocws o ddisgyblion BAME.<br>• Data Arolwg Barn y Dysgwyr / Rhieni / Staff |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | digwyddiadau diwylliannol i ddathlu amrywiaeth.<br>- Annog trafodaeth agored ac adeiladol am hil a thegwch cymdeithasol trwy gyfarfodydd, grwpiau trafod a gweithdai.<br>- Cydweithio â'r gymuned leol a sefydliadau i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymgysylltu â diwylliannau amrywiol.<br>- Adolygu a monitro cynnydd yn rheolaidd trwy arolwg barn, adolygiadau blynyddol a gwerthusiadau allanol. | | | |

***Gwerthusiad (Parhad)***

- Derbyniodd Ysgol Gyfun Gwyr statws Ysgol Noddfa o dan gynllun Schools of Sanctuary y DU ym Mehefin 2024.
- Perfformiodd y cor ganeuon am oddefgarwch a chariad at gyd-ddyn yn y seremoni gwobrwyo yn Arena Abertawe.
- Cynhaliwyd sesiwn Teams rhwng dysgwyr CA4 a ffoaduriaid a cheiswyr lloches o'r Wcrain sy'n mynychu ysgol arall yn Abertawe.
- Mynychodd ein dysgwyr sesiwn y Sgwrs Fawr am Gydraddoldeb a drefnwyd gan Gyngor Abertawe.
- Cynhaliwyd gwasanaeth ysgol gyfan am droseddau casineb gyda'r Swyddog Ysgolion yr Heddlu.
- Mae calendr gwasanaethau'r ysgol yn cynnwys ffocws benodol ar faterion yn ymwneud a hil, yn cynnwys dathliadau o gyfraniadau pobl o'r mwyafrif fyd-eang e.e Mis Hanes Pobl Dduon, Wythnos Ffoaduriaid, Diwrnod Windrush, Diwrnod yr Holocost. Cynhaliwyd gwasanaeth hefyd am ystyr a phwysigrwydd bod yn "wrth-hiliol".
- Mae'r Munud i Feddwl wythnosol yn cyd-fynd a'r pwnc hwn, gan ffocysu'n rheolaidd ar faterion o degwch a chydraddoldeb.
- Addysgwyd ein dysgwyr am ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhan o Wythnos Ffoaduriaid 2023. Gwnaed hyn drwy wasanaethau, diwrnod o weithgareddau ar gyfer Bl.7 ac ymweliad a chanolfan ar gyfer ceiswyr lloches yn Abertawe.
- Gwnaeth ein dysgwyr gyflwyniad yngnghynhadledd HarMINDise a drefnwyd gan Gymdeithas Affricanaidd Abertawe.
- Cyfrannodd Rhodri Evans, Pennaeth cynorthwyol, at bodlediad ESTYN am y camau a gymerir gan yr ysgol i fod yn sefydliad wrth-hiliol yn Rhagfyr 2024.
- Er mwyn gallu delio ag achosion o iaith hiliol mewn modd adferol, crewyd llyfryn o weithgareddau i ddisgyblion gwblhau tra'u bod yn yr Uned Wella am achos o ddefnyddio iaith hiliol.
- Mynychodd aelodau o staff a llywodraethwyr hyfforddiant DARPL er mwyn cynyddu eu gwybodaeth o'r hyn a olygir am fod yn ysgol gwrth-hiliol.
- Cynhaliwyd HMS staff ym Medi 2025 ar y thema o "Dim hiliaeth, Dim Esgusodion"
- Gwnaed cais am grant Llywodraeth Cymru er mwyn creu gweithlu mwy amrywiol a chynyddu'r nifer o ddysgwyr o'r mwyafrif byd-eang sy'n derbyn addysg Gymraeg.

**AMCAN CYDRADDOLDEB:** Sicrhau bod pob dysgwr a staff sy'n wynebu beichiogrwydd a mamolaeth yn cael eu cefnogi'n llawn i gynnal eu lles emosiynol, corfforol ac addysgol, gan leihau unrhyw rwystrau i'w datblygiad personol a'u cyfleoedd gyrfaol yn y byd addysg.

**Nodwedd warchodedig:** Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☒Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐ Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☒

**RHESYMEG:**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'r cynllun yn helpu ysgolion i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon. Mae gan bob unigolyn hawl i gyfleoedd cyfartal mewn addysg a chyflogaeth. Mae gwahaniaethu yn erbyn mamolaeth neu feichiogrwydd yn effeithio ar gynnydd academaidd a phroffesiynol, gan atgyfnerthu anghydraddoldebau cymdeithasol. Mae cefnogaeth briodol yn hybu lles meddyliol a chorfforol, gan leihau straen a hyrwyddo ymrwymiad i ddysgu neu waith. Mae hyn yn sicrhau cymuned ysgol gynaliadwy sy'n ffynnu'n addysgol ac yn broffesiynol. Mae ysgolion yn gosod esiampl drwy ddangos sut mae sefydliadau'n gallu cefnogi rhieni a disgyblion beichiog yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfleu gwerthoedd cadarnhaol megis parch, cyfartaledd, a chydraddoldeb i'r holl gymuned ysgol.

| Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant | Camau Gweithredu Allweddol | Person Arweiniol | Llinell amser | Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/lwyddiant i chi |
|---|---|---|---|---|
| a) Cynnydd ym mhresenoldeb a llwyddiant addysgol dysgwyr beichiog a rhieni ifanc.<br><br>b) Disgwylir y bydd dysgwyr beichiog a rhieni ifanc yn parhau â'u haddysg, yn cyrraedd eu potensial | **Cefnogaeth i Ddysgwyr:**<br><br>• Cynnig cynlluniau cefnogi unigol i ddysgwyr beichiog a rhieni ifanc, gan gynnwys trefniadau hyblyg ar gyfer mynychu, astudio o bell, a mynediad at wasanaethau lles ac iechyd. | Mr Ben Roberts / Mrs Sara Thomas | Parhaus | **1.** Casglu Data Meintiol e.e.<br><br>**Presenoldeb a Mynychder:**<br><br>• Monitro cyfraddau presenoldeb dysgwyr beichiog a rhieni ifanc. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| academaidd llawn, ac yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r gweithle neu addysg bellach.<br><br>c) Bydd staff yn dychwelyd i'w gwaith yn hyderus ar ôl mamolaeth, gyda chydbwysedd bywyd a gwaith wedi'i wella a chyfleoedd gyrfa cyfartal.<br><br>d) Bydd yr ysgol yn fan cynhwysol a chefnogol lle mae cydraddoldeb rhyw a chyfrifoldebau teuluol yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. | • Sicrhau mynediad i wasanaethau cynghori a gweithwyr cymdeithasol lle bo angen.<br><br>**Cefnogaeth i Staff:**<br><br>• Cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 trwy sicrhau hawliau absenoldeb mamolaeth, cyfnod hyblyg ar ôl dychwelyd i'r gwaith, a mynediad at gynlluniau cefnogi iechyd meddwl a chorfforol.<br>• Gwneud addasiadau rhesymol, megis lleoliadau gwaith diogel ac amserlenni dysgu hyblyg i staff sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth.<br><br>**Diwylliant Cynhwysol:**<br><br>• Hyfforddi staff ar ymwybyddiaeth a chefnogaeth beichiogrwydd a mamolaeth i leihau stigma neu ragfarn.<br>• Sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei wahaniaethu oherwydd eu rôl fel rhiant, gan gynnwys mynediad cyfartal at gyfleoedd hyfforddi a dyrchafiad. | | | • Cofnodi a dadansoddi'r gyfradd dychwelyd i'r gwaith ar gyfer staff ar ôl absenoldeb mamolaeth.<br><br>**Cyrhaeddiad Academaidd:**<br><br>• Asesu perfformiad academaidd dysgwyr beichiog a rhieni ifanc i weld a ydynt yn cyflawni eu targedau addysgol.<br>• Cymharu data gyda chyfartaleddau ysgolion a data cenedlaethol.<br><br>**Cofnodion Ymddygiad:**<br><br>• Archwilio nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn neu wahaniaethu cysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth mewn cofnodion ymddygiad.<br><br>**Casglu Data Ansoddol**<br>• **Arolygon Disgyblion a Staff:** Cynnal arolygon cyfrinachol i ddysgwyr a staff sy'n wynebu beichiogrwydd a mamolaeth i gasglu adborth ar eu profiadau o gefnogaeth a thegwch yn yr ysgol.<br><br>**Cyfweliadau a Grwpiau Ffocws**: Cynnal sesiynau cyfweld â disgyblion, staff a rhieni i ddeall eu hanghenion a'u barn am ddarpariaeth yr ysgol.<br><br>**Partneriaethau Allanol:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cydweithio â Sefydliadau Cefnogol:**<br>Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a sefydliadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol i famau ifanc a staff sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth. |
| ***Gwerthusiad (Parhad)***<br>Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. | | | | |

YSGOL GYFUN GWYR

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2024-28

**AMCAN CYDRADDOLDEB:** I leihau rhagfarn a thuedd anffafriol yn erbyn pobl LHDTQ+, drwy addysgu dysgwyr am faterion sy'n wynebu'r gymuned LHDTQ+

**Nodwedd warchodedig:** Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☒Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐ Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☒

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☒

**RHESYMEG:**

Mae hyrwyddo hawliau LGBTQ+ fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol ysgol yn hanfodol i greu amgylchedd dysgu cynhwysol ac urddasol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cefnogi Polisi Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod ysgolion yn gweithredu'n rhagweithiol i herio rhagfarn. Yn Abertawe, gyda'i chymuned LGBTQ+ fywiog a digwyddiadau fel Pride Abertawe, mae'n bwysig bod ysgolion yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon ac yn hyrwyddo cydraddoldeb trwy bolisïau, addysg ac ymwybyddiaeth. Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am barch, hawliau dynol, a hunaniaethau amrywiol, gan wella iechyd meddwl a lles pob unigolyn. Yn ogystal, dywed dysgwyr sy'n rhan o grwpiau hawliau / LHDTQ+ yr ysgol eu bod yn clywed iaith homoffobig ar safle'r ysgol ac felly teimlwn fod angen mynd i'r afael a'r maes hwn.

| Effaith a fwriedir/<br>Meini prawf llwyddiant | Camau Gweithredu Allweddol | Person Arweiniol | Llinell amser | Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/lwyddiant i chi |
|---|---|---|---|---|
| Y nod yw creu amgylchedd dysgu diogel, cynhwysol ac urddasol lle mae pob dysgwr, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dylai hyrwyddo hawliau LHDTQ+ leihau gwahaniaethu, cynyddu ymwybyddiaeth a derbyniad, a gwella lles a llwyddiant academaidd disgyblion.<br><br>**Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>a) **Diwylliant Cadarnhaol yn yr Ysgol:** Tystiolaeth o fwy o barch, derbyniad a dealltwriaeth ymhlith disgyblion a staff.<br>b) **Llai o Fwlio:** Llai o ddigwyddiadau o wahaniaethu neu fwlio ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd, fel y cofnodir ar ClassCharts.<br>c) **Integreiddio'r Cwricwlwm:** Mae pynciau LHDTQ+ wedi'u hymgorffori ar draws pynciau perthnasol, gan adlewyrchu amrywiaeth yn y deunyddiau dysgu.<br>d) **Hyfedredd Staff:** Mae staff yn dangos hyder wrth fynd i'r afael â | **Datblygu Polisi Cynhwysiant:**<br><br>• Adolygu a diweddaru polisïau ysgol i gynnwys datganiadau clir yn erbyn gwahaniaethu a chefnogi disgyblion LGBTQ+.<br>• Cyhoeddi canllawiau ysgol clir ar arferion derbyniol a phrosesau adrodd am fwlio neu wahaniaethu.<br><br>**Hyfforddiant Staff:**<br><br>• Cynnal sesiynau hyfforddi rheolaidd ar amrywiaeth, cydraddoldeb ac anghenion disgyblion LHDTQ+.<br>• Sicrhau bod pob aelod staff yn hyderus wrth fynd i'r afael â materion LHDTQ+ a rhoi cymorth ymarferol.<br><br>**Addysg ac Ymwybyddiaeth:**<br><br>• Integreiddio pynciau LHDTQ+ yn y cwricwlwm, gan gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb (RSE), hanes, llenyddiaeth a chelf.<br>• Dathlu diwrnodau pwysig fel Mis Hanes LGBTQ+ a Diwrnod | Ms Rebecca Richards / | Parhaus | • Casglu data trwy arolygon disgyblion a rhieni i asesu eu profiadau a'u teimladau o ddiogelwch a pherthyn.<br>• Adolygu cofnodion ymddygiad yn rheolaidd i fonitro unrhyw faterion yn ymwneud â gwahaniaethu neu fwlio.<br>• Adrodd yn ol i'r llywodraethwyr am y cynnydd tuag at gyflawni'r meini prawf llwyddiant. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| materion LHDTQ+ yn sensitif ac yn effeithiol.<br>e) **Llais y Disgyblion:** Mae disgyblion LHDTQ+ yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddiogel, wedi'u cefnogi, ac wedi'u cynrychioli mewn arolygon ysgol neu grwpiau ffocws.<br>f) **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Cyfranogiad gweithredol mewn digwyddiadau lleol fel Pride Abertawe a chydweithredu â sefydliadau cydraddoldeb allanol. | Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia a Thrawsffobia (IDAHOBIT).<br><br>**Cefnogi Disgyblion:**<br><br>• Creu gofodau diogel lle gall disgyblion LGBTQ+ rannu eu profiadau a derbyn cymorth, megis grwpiau cymorth disgyblion neu glybiau cydraddoldeb.<br>• Sefydlu system fentora lle gall disgyblion hŷn gefnogi disgyblion iau sy'n dymuno trafod eu hunaniaeth.<br><br>**Ymgysylltu a'r Gymuned:**<br><br>• Cydweithio â sefydliadau lleol fel Pride Abertawe a grwpiau cymorth cymunedol perthnasol. | | | |

***Gwerthusiad (Parhad)***

Trefnwyd nifer o weithgareddau yn ystod 2024-25, yn cynnwys:

- Arddangosfa Mis Hanes LHDTQ+ yn Chwefror am ddigwyddiadau nodedig. Gwnaed arddangosfa arall hefyd lle soniodd cyn-ddisgblion Gŵyr am eu profiadau fel pobl LHDTQ+
- Cyfrannodd staff i weithgareddau Posteri Arwyr LHDTQ+ a roddwyd o amgylch yr ysgol.
- Cynhaliwyd gweithdy gydag Oriel Odl a chrewyd murlun sy'n cael ei arddangos yn y ffreutur.
- Daeth BBC Cymru i'r ysgol i wneud bwletin newyddion am y llyfrgell o adnoddau LHDTQ+ rydym yn ceisio sefydlu. Cafodd hyn sylw yn y wasg yn genedlaethol.
- Cafodd homoffobia ei gynnwys fel thema gwasanaethau / Munud i Feddwl a.y.y.b.
- Arddangosir negeseuon o gefnogaeth i'r gymuned LHDTQ+ ar sgriniau digidol yr ysgol yn ystod Wythnos Pride.
- Caiff dysgwyr sy'n cwestiynu eu rhywedd eu cefnogi trwy dderbyn arweiniad penodol gan Simon Burman-Rees, swyddog lles a phresenoldeb yr Awdurdod Lleol.
- Cymera ein disgyblion sy'n rhan o Weithgor LHDTQ+ yr ysgol ran yng ngorymdaith Pride Abertawe yn flynyddol.
- Mynychodd ein dysgwyr sesiwn y Sgwrs Fawr am Gydraddoldeb a drefnwyd gan Gyngor Abertawe.

- Cynhaliwyd gwasanaeth ysgol gyfan am droseddau casineb gyda'r Swyddog Ysgolion yr Heddlu.

YSGOL GYFUN GWYR

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2024-28

**AMCAN CYDRADDOLDEB:** Sicrhau bod yr holl ddisgyblion, waeth beth fo'u rhyw, yn cael cyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial academaidd, cymdeithasol ac emosiynol, gan ddileu unrhyw rwystrau sy'n seiliedig ar stereoteipiau rhywedd yn yr ysgol.

**Nodwedd warchodedig:** Anabledd ☐ Ailbennu Rhywedd ☐Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐
Rhyw ☒ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒
Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒
Meithrin perthnasoedd da ☒

**RHESYMEG:**
Mae ceisio gwella cydraddoldeb ar sail rhyw yn sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'u rhyw, yn cael yr un cyfleoedd i gyrraedd eu potensial academaidd a phersonol. Mae hyrwyddo cydraddoldeb rhyw yn helpu i greu diwylliant ysgol lle mae pob unigolyn yn teimlo'n barchus, yn ddiogel ac yn cael ei dderbyn heb wahaniaethu. Trwy weithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau, mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas deg a chyfartal yn y dyfodol.

| Effaith a fwriedir/ Meini prawf llwyddiant | Camau Gweithredu Allweddol | Person Arweiniol | Llinell amser | Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/lwyddiant i chi |
|---|---|---|---|---|
| a) Cyfranogiad cyfartal mewn gweithgareddau ysgol gan fechgyn a merched.<br>b) Llai o ragfarn neu stereoteipiau mewn dewis pynciau a llwybrau gyrfaol.<br>C) Perfformiad academaidd gwell i bob disgybl, waeth beth fo'u rhyw | **Addysg a Chwricwlwm:** Sicrhau bod pynciau a gweithgareddau'n gynhwysol, heb stereoteipiau rhywedd, ac yn annog cyfranogiad cyfartal bechgyn a merched mewn pob maes.<br><br>**Cyfleoedd Teg:** Darparu cyfleoedd cyfartal mewn chwaraeon, arweinyddiaeth ddisgyblion, a mentrau allgyrsiol. | Mrs Rhian Churchill | Parhaus | • Data o ran dewisiadau pynciol a wneir gan ddysgwyr e.e. canran o ferched sy'n gwneud pynciau STEM, bechgyn yn dewis y Celfyddydau a Ieithoedd a.y.y.b.<br>• Llai o fwlch ym mherfformiad bechgyn a merched yn y dangosyddion yn TGAU a Safon Uwch.<br>• Adborth cadarnhaol gan ddisgyblion, rhieni a staff mewn arolygon am |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Hyfforddiant Staff:** Hyfforddi staff i herio rhagfarn rhywedd a hyrwyddo amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n gynhwysol a pharchus. | | | deimlad o gydraddoldeb ac urddas yn yr ysgol.<br>• Llai o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn neu fwlio ar sail rhyw, fel y cofnodir mewn logiau ymddygiad ysgol.<br>• Staff yn dangos hyder wrth herio stereoteipiau rhywedd ac yn gweithredu dulliau dysgu a rheoli'r ystafell ddosbarth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb.<br><br>Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun. |

***Gwerthusiad (Parhad)***

Cliciwch neu gwasgwch yma i nodi testun.

YSGOL GYFUN GWYR

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2024-28

**AMCAN CYDRADDOLDEB:** Sicrhau bod pob dysgwr ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgol trwy ddarparu cefnogaeth briodol, addasiadau rhesymol a chynlluniau dysgu personol sy'n hyrwyddo eu datblygiad academaidd a'u lles emosiynol.

**Nodwedd warchodedig:** Anabledd ☒ Ailbennu Rhywedd ☐Beichiogrwydd a mamolaeth ☐ Hil ☐ Crefydd neu gred ☐ Rhyw ☐ Cyfeiriadedd rhywiol ☐

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ☒

Hyrwyddo cyfle cyfartal ☒

Meithrin perthnasoedd da ☒

**RHESYMEG:**

Hyrwyddo cydraddoldeb i ddysgwyr anabl yw sylfaen addysg deg ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle gorau i gyrraedd ei botensial. Mae'n helpu i leihau stigma a gwahaniaethu, gan feithrin cymuned ysgol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u parchu.

| Effaith a fwriedir/<br>Meini prawf llwyddiant | Camau Gweithredu Allweddol | Person Arweiniol | Llinell amser | Cysylltiad â Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso a fydd yn rhoi tystiolaeth o effaith/lwyddiant i chi |
|---|---|---|---|---|
| **Mynediad Cyfartal i Addysg a Chyflogaeth:**<br><br>• Mae disgyblion a staff anabl yn cael mynediad llawn a chyfartal at bob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gyrfaol.<br>• Mae pob maes yr ysgol, gan gynnwys dosbarthiadau, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleusterau cymdeithasol, yn hygyrch i bawb.<br><br>**Perfformiad a Datblygiad:**<br><br>• Mae disgyblion anabl yn cyflawni targedau academaidd personol yn unol â'u gallu, gyda chynnydd cadarnhaol yn eu perfformiad.<br>• Mae staff anabl yn symud ymlaen yn broffesiynol trwy gyfleoedd hyfforddi a dyrchafiad, heb unrhyw rwystrau strwythurol na diwylliannol.<br><br>**Diwylliant Cynhwysol a Chymorth Cadarn:** | • **Addasiadau Dysgu:** Gwneud newidiadau rhesymol yn yr ystafell ddosbarth, megis defnydd o dechnoleg gynorthwyol, dulliau dysgu amgen a chymorth ychwanegol gan staff cymorth dysgu.<br><br>• **Cynlluniau Cefnogi Personol:** Datblygu cynlluniau unigol sy'n gosod targedau clir ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd.<br><br>• **Hyfforddiant Staff:** Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant ar ADY ac ymwybyddiaeth o anabledd i ddarparu cymorth sensitif ac effeithiol.<br><br>• **Partneriaethau:** Cydweithio â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol i roi'r gefnogaeth orau bosibl i ddysgwyr. | Mrs Emma Morris | Parhaus | **Casglu Data Meintiol:**<br><br>**Presenoldeb a Pherfformiad:** Monitro cyfraddau presenoldeb disgyblion anabl a'u cyrhaeddiad academaidd i nodi unrhyw fylchau mewn perfformiad.<br><br>**Digwyddiadau Ymddygiad:** Adolygu cofnodion am unrhyw achosion o wahaniaethu, bwlio neu gam-drin ar sail anabledd, gan olrhain camau gweithredu a'u canlyniadau.<br><br>**Cyfranogiad mewn Gweithgareddau:** Cofnodi cyfranogiad disgyblion a staff anabl mewn gweithgareddau allgyrsiol, grwpiau arweinyddiaeth, a chyfleoedd hyfforddi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n dathlu amrywiaeth a pharchu anghenion unigol.<br>• Mae adborth cadarnhaol yn cael ei gofnodi gan ddisgyblion, staff a rhieni trwy arolygon neu grwpiau ffocws.<br>• Mae staff yn derbyn hyfforddiant parhaus ar gydraddoldeb ac anabledd, gan arddangos hyder a chymhwysedd wrth gefnogi dysgwyr a chydweithwyr anabl.<br><br>**Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>• Lleihad yn nifer yr achosion o wahaniaethu neu eithrio disgyblion neu staff anabl.<br>• Gwelliant mewn canlyniadau academaidd a mynychder.<br>• Adborth cadarnhaol o arolygon a chyfweliadau.<br>• Tystiolaeth o ddiwylliant ysgol cynhwysol, lle mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel, yn gefnogol, ac yn rhan lawn o gymuned yr ysgol. | | | | **Casglu Data Ansoddol:**<br>**Arolygon a Holiaduron:** Cynnal arolygon cyfrinachol gyda disgyblion, rhieni a staff i asesu eu profiadau a'u teimladau o gael eu cefnogi.<br><br>**Cyfweliadau a Grwpiau Ffocws:** Cynnal cyfweliadau â disgyblion anabl a'u teuluoedd i drafod pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth sydd ar gael.<br><br>**Adborth Staff**: Casglu barn staff ar hyfforddiant, adnoddau, a pholisïau cydraddoldeb yr ysgol. Adolygu Dogfennau a Phrosesau:<br><br>**Adolygiadau Polisi:** Gwneud adolygiadau rheolaidd o bolisïau cydraddoldeb ac anabledd i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>**Adroddiadau Cynnydd:** Paratoi adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r llywodraethwyr, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau.<br><br>**Cofnodion Hyfforddiant Staff:** Cadw cofnodion hyfforddiant staff i sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei ddarparu'n rheolaidd.<br><br>**Partneriaethau Allanol:**<br><br>**Asesiadau Annibynnol:** Gweithio gyda sefydliadau allanol fel Estyn neu elusennau cydraddoldeb i adolygu a gwerthuso cynlluniau'r ysgol yn annibynnol.<br><br>**Cymorth Gwasanaethau Arbenigol:** Ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol, therapyddion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | galwedigaethol neu seicolegwyr addysg i adolygu cynnydd unigol disgyblion. |

*Gwerthusiad (Parhad)*

- Gwasanaeth am Ddiwrnod Syndrom Downs gyda disgybl sydd a'r cyflwr yn flaenllaw yn hyn.
- Dathlu Diwrnod Sanau Gwahanol.
- Hyrwyddo gwella dealltwriaeth o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth – hyfforddiant staff, gwasanaethau disgyblion, gweithgareddau gan y Cyngor Ysgol

Atodiad 2

## Cynllun Mynediad /Accessibility Plan Ysgol Gyfun Gŵyr 2024 - 28

| Targed<br>Target | Dull Gweithredu<br>Means of Action | Erbyn<br>Pryd<br>By When | Gwerthuso Meini<br>Prawf/Llwyddiant<br>Evaluation: Success Criteria |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Parhau i gofnodi anableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion.**<br>• Continue to record disabilities of Governors, Staff and Pupils. | • **Sicrhau bod y gweithdrefnau presennol i gofnodi anableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion yn parhau.**<br>• Ensure that the present procedures of recording disabilities of Governors, Staff and Pupils continue. | **Parhaol/** Continuous | • **Cofnod cyfredol o anableddau Llywodraethwyr, Staff a Disgyblion ar gael.**<br>• Current record of disabilities of Governors, Staff and Pupils available. |
| • **Cynyddu ymwybyddiaeth o anableddau rieni /gwarcheidwaid.**<br>• Increase awareness of parents'/guardian' disabilities. | • **Cynnig cyfle i bob rhiant/gwarcheidwad yn ystod Nosweithiau Rhieni i gofnodi anableddau.**<br>• Provide an opportunity to every parent/guardian to record disabilities on Parents Evenings. | **2025** | • **Cofnod o anableddau rhieni/gwarcheidwaid ar gael.**<br>• Record of parents'/guardians' disabilities available |
| • **Asesu cyrhaeddiad addysgol disgyblion anabl.**<br>• Assess educational attainments of disabled pupils. | • **Dadansoddi canlyniadau disgyblion mewn asesiadau statudol ac arholiadau allanol, a chofnodi cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol.**<br>• Analyse results of disabled pupils in statutory assessments and external examinations and record participation in extracurricular activities. | **2025** | • **Cofnod o gyrhaeddiad addysgol disgyblion anabl ar gael er mwyn ymateb i'r canfyddiadau.**<br>• Record of educational attainment of disabled pupils available in order to respond to findings. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Asesu cyrhaeddiad gyrfaol o unrhyw staff anabl.**<br>• Assess the career attainment of any disabled staff. | • **Ystyried disgrifiadau swydd staff anabl a thrafod eu cyfrifoldebau.**<br>• Consider job descriptions of disabled staff and discuss their responsibilities. | **2025** | • **Cofnod o gyrhaeddiad gyrfaol staff anabl ar gael er mwyn mesur cynhwysiant proffesiynol.**<br>• Record of career attainment of disabled staff available in order to measure professional inclusion. |
| • **Asesiad o effaith polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyrhaeddiad staff a disgyblion.**<br>• Assessment of the impact of school policies and procedures on disabled staff and pupils. | • **Holi sampl o ddisgyblion a staff anabl am bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol.**<br>• Question a sampl of disabled staff and pupils about school policies and procedures. | **2025** | • **Adroddiad yn cael ei gynhyrchu er mwyn gweithredu ar ganfyddiadau.**<br>• Report produced in order to action findings. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Parhau i wella safle'r ysgol ar gyfer pobl anabl.**<br>• Continue to improve the school site for disabled people. | • **Er Enghraifft:**<br>• **Ychwanegu at y rampiau mynediad sydd eisoes yn yr ysgol yng nghyswllt ehangu/datblygu campws yr ysgol.**<br>• **Darparu mwy o ardaloedd parcio anabl yn ôl yr angen.**<br>• **Adnewyddu drysau yn ôl yr angen i gydymffurfio gyda DDA yng nghyswllt ehangu/datblygu campws yr ysgol.**<br>• **Adeiladu lifft i gyrraedd llawr uchaf y prif adeilad**<br>• For Example:<br>• Add to the accessibility ramps which are already in the school in the context of expanding/developing the school campus.<br>• Provide further disabled parking spaces as required.<br>• Renew doors across the school to comply with DDA in the context of expanding/developing the school campus.<br>• Install a lift to access the upper floor of the main building | **Parhaol/**<br>Continuous | • **Bod yr agweddau sydd wedi eu nodi yn y 'dull gweithredu' wedi'u cyflawni i ran helaeth iawn.**<br>• The aspects noted in the 'action plan' have been accomplished to a large degree. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Gwella ymhellach mynediad i ddisgyblion anabl i gwricwlwm yr ysgol.**<br>• Improve access for disabled pupils to the school curriculum. | **Gweithdrefnau ysgol gyfan yn eu lle i**<br><br>• **Ganiatáu amser teg i holl ddisgyblion anabl cyflawni gwaith yn rhan o'r cwricwlwm**<br>• **Sicrhau strategaethau/cymorth dysgu addas mewn gwersi/gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi'r ystod o anableddau cymedrol sydd gan ddisgyblion.**<br>• **Hyfforddi staff ynghylch y prif egwyddorion o addysgu disgyblion anabl.**<br><br>Whole school procedures in place to:<br><br>• Allow sufficient time for all disabled pupils to accomplish work as part of the curriculum.<br>• Ensure appropriate learning support/strategies in lessons/extracurricular activities to support the range of moderate learning difficulties had by pupils.<br>• Train staff regarding the main principles of teaching disabled pupils. | **Parhaol/**<br>Continuo us | • **Bod yr agweddau a nodwyd yn y 'dull gweithredu' wedi'u cyflawni i ran helaeth iawn.**<br>• That the aspects noted in the 'means of action' have been accomplished. |